

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Croesawu Sarah Mellor i'r Criw

Mae dau bâr o esgidiau ecoleg maint deuddeg wedi'u gadael o dan ddesgiau yn Swyddfeydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Ym mis Awst gwnaeth dau unigolyn brwd dros fioamrywiaeth o'r Awdurdod, Jane Hodges, Ecolegydd a Celia Thomas, Swyddog Coetir adael y nyth i borfeydd glasach (ymddeol!) ar ôl llawer o flynyddoedd o waith rhagorol i'r Awdurdod. Bydd colled fawr ar eu hôl.

Ni wnaeth Sarah Mellor, Swyddog Bioamrywiaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd ei phenodi, nodi maint ei hesgidiau ecoleg ar ei ffurflen gais, ond mae pob ffydd y bydd Sarah yn gaffaeliad ardderchog i'r gymuned fioamrywiaeth yng ngorllewin Cymru.

Mae Sarah wedi gweithio i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain yn arwain gwirfoddolwyr i ymgymryd â chadwraeth ymarferol a thasgau hyfforddi, ac yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor yn gweithredu amrywiaeth o brosiectau bioamrywiaeth ymarferol ac ymgysylltu â phobl.



Sarah Mellor

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyfrl 11 Rhifyn 3
Hydref/Gaef 2014

Yn y rhifyn hwn



Awdurdod Parc
Cenedlaethol Arfordir
Penfro yn Croesawu
Sarah Mellor i'r Criw
Tudalennau 1—2



Noson Wyfynod
Genedlaethol yng
Nghoedwig Pengelli
Tudalennau 2—3

Deng Mlynedd o'r Sea
Trust yn Sir Benfro
Tudalennau 3—4

Cyfrif Wyau West
Williamston
Tudalen 4



Adar Drycin Manaw yn
Drysu
Tudalen 4



Digwyddiad Gweld
Bywyd Gwyllt Sir Benfro
2014
Tudalen 5

Digwyddiadau
Tudalennau 6—7

Manylion Cysylltu
Tudalen 8



Yn fwy diweddar wrth weithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bu Sarah yn rhan o edrych ar fygythiadau i safleoedd dynodedig a rheoli gweithredoedd mewn ymateb, gan amlygu straeon llwyddiant a chysylltu â'r rheini a chanddynt ddiddordeb mewn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ganfod datrysiadau er mwyn galluogi darparu rheoli cadwraeth ffafriol.

Mae Sarah eisoes wedi datblygu gwybodaeth ardderchog am reoli cynefinoedd arfordirol yn ystod ei chyfnod â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol trwy arolygu a monitro safleoedd a darparu cyngor ar reoli eiddo arfordirol allweddol gan gynnwys y Gŵyr, Penrhyn Llŷn, arfordir Ceredigion ac ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei hun.

Gallwch gysylltu â Sarah trwy:

SarahMe@pembrokeshirecoast.org.uk. Mae'n dechrau yn ei swydd â ni fel Swyddog Bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol ar 22 Medi ac rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn estyn croeso cynnes iddi.

Martina Dunne

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Noson Wyfynod Genedlaethol yng Nghoedwig Pengelli

Cynhaliwyd Noson Wyfynod Genedlaethol y DU rhwng 3 a 5 Gorffennaf eleni. Trefnwyd digwyddiad yng ngwarchodfa natur Coedwig Pengelli gyda grŵp o bobl sy'n frwdfrydig dros wyfynod o Grŵp Gwyfynod Gogledd Sir Benfro sy'n cynnwys Tony Lewis, cofnodwr gwyfynod y Sir. Dechreuodd y digwyddiad am 8.30pm a daeth i ben am 1.30am a bu'r tywydd fwy neu lai'n berffaith i weld digonedd o wyfynod. Defnyddiwyd cyfanswm o bedwar trap gwyfynod; dau drap Robinson MV 125W, un Skinner MV 125W ac un Actinic 15W. Gallech dybio fod hyn yn ormod, ond eto ar ôl eu rhoi'n ddigon pell o'i gilydd, daeth y canlyniadau'n amlwg yn ddigon buan.

Dal Gwyfynod



Ni chawsom ein siomi â'r niferoedd wrth i gannoedd o wyfynod heidio i'r trapiau golau trwy'r nos. Erbyn diwedd y digwyddiad cofnodwyd 90 o rywogaethau gwahanol ac roedd 10 ohonynt yn newydd i'r warchodfa. Roedd y 'scotch smudge' (*Rhigognostis incarnatella*) o ddiddordeb penodol oherwydd mai'r unig gofnodion o Gymru ohono hyd yn hyn oedd o Gasnewydd a Felindre Farchog – ardaloedd heb fod yn rhy bell o'r warchodfa. Bellach mae Coedwig Pengelli'n safle ychwanegol i'r gwyfyn hwn ond dim ond yn Sir Benfro y mae'r cofnodion bod y rhywogaeth hon yn bodoli. Roedd y rhywogaethau eraill yn cynnwys y gwalch-wyfyn helygllys (*Deilephila elpenor*) rhyfeddol a'r gem fforch aur hardd (*Autographa pulchrina*). Roedd digonedd o 'wyfynod micro' a bydd y rheini ohonoch sy'n gwybod rhywfaint am astudio gwyfynod yn deall pa mor anodd y mae'n gallu bod i adnabod y rhywogaethau llai hyn. Rwyf yn falch bod yr arbenigwyr yn gwybod er y bu rhywfaint o anghytuno ar brydiau.

Gwalchwyfyn yr Helygllys



Mae gwarchodfeydd natur eraill yn dal gwyfynod trwy'r haf ac mae niferoedd da o rywogaethau yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata gofnodi'r warchodfa. Grŵp arall o rywogaethau y mae modd ei gofnodi mewn digwyddiadau o'r fath yw ystlumod wrth gwr, sy'n defnyddio gwyfynod fel eu prif ffynhonnell fwyd. Felly gall dal gwyfynod fod yn ffordd dda o ddenu'r mamaliaid hyn yn agosach at synhwyrydd ystlumod ac felly nodi rhywogaethau yn yr ardal.

Cadwch olwg am ddigwyddiadau'n cael eu hysbysebu yn y dyfodol agos.

Nathan Walton

Swyddog Ymddiriedolaeth Natur Sir Benfro

Deng Mlynedd o'r Sea Trust yn Sir Benfro

Er 2004, mae'r Sea Trust (grŵp cadwraeth forol wedi'i leoli yn Abergwaun) wedi bod yn cofnodi ac yn monitro bywyd gwyllt morol o gwmpas Arfordir Sir Benfro.

Rydym yn arbenigo mewn cofnodi a monitro anifeiliaid morfilaidd (morfilod, dolffiniaid a morhychod) ond hefyd rydym yn canolbwyntio ar gadwraeth ac amddiffyn ein holl fywyd gwyllt morol arbennig, ein slogan a'n bwriad yw "*Local people looking after their marine wildlife*".

Mae hyn yn olrhain yn ôl i ddyddiau gollyngiad olew y Sea Empress a amlygodd fylchau mewn gwybodaeth am ein hamgylchedd a'n bioamrywiaeth forol. Daeth yn amlwg y byddai'r bylchau'n parhau i dyfu pe na fyddai pobl yn mynd i'r môr neu'n cofnodi'r hyn a welir o'r lan. Felly a minnau'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Natur ac yn gefnogwr, cynigais ffurfio adran forol yma yn Sir Benfro.

Aeth Sea Trust, fel y cawsom ein galw, o nerth i nerth trwy ein digwyddiadau gwyllo morhychod ym Mhencaer a'n harolygon ar gychod bach a fferis ar "Stena Europe". Mae ein gwirfoddolwyr yn cyflwyno sioeau

sleidiau ledled y Sir ac mae cannoedd o bobl leol wedi gwirfoddoli â ni dros y deng mlynedd diwethaf ac maent yn parhau i wneud hynny. Diolch i'n partneriaeth hirdymor â Stena Line mae ein llwybrau arolygu ar fferis bellach yn cynnwys Abergwaun i Rosslare, Caergybi i Ddelyn ac yn newydd ar gyfer eleni, Rosslare i Cherbourg yn Ffrainc.

Cwpl o flynyddoedd yn ôl, roedd y Cyngor yn ystyried dyfodol yr Ocean Lab yn Harbwr Abergwaun. Gwnaethom drafod â nhw a'r cwmni datblygu er mwyn ei chadw ar agor a'i defnyddio'n ganolfan i greu arddangosfa forol ochr yn ochr â'r caffi a'r man chwarae meddal sy'n ffurfio canolbwynt i'n cymuned. Buom yn llwyddiannus, gan gadw swyddi presennol a hyd yn oed creu dwy swydd newydd. Trwy wneud hyn gwnaethom ailffurfio i fod yn Gwmni Buddiant Cymunedol "nid er elw".

Gwirfoddolwyr Sea Trust wrth eu Gwaith



Bellach mae'r Ocean Lab yn ganolbwynt ein gweithredoedd, ac mae ar agor saith diwrnod yr wythnos yn ystod yr haf a'r gaeaf. Mae llif cyson o ymwelwyr o bob cwr o'r byd (a llawer o bobl leol) yn ymweld â'n harddangosfa bywyd gwyllt morol ac mae gwirfoddolwyr yn cynnal teithiau gan roi safbwynt unigryw ar ein gwaith a bywyd gwyllt morol Sir Benfro. Bob dydd Sul, mae Silent World 2U yn ymweld â'u hymylusgiaid, nadroedd a phryfed prysur gan ychwanegu dimensiwn gwahanol at yr hyn rydym ni'n ei gynnig.

Er ein bod yn bennaf yn gweithredu'n lleol, ni yw aelodau sefydlu'r *European Cetacean Monitoring Coalition* yn cynrychioli Cymru ac rydym hefyd yn cynrychioli Cymru yn y *World Cetacean Alliance*. Eleni byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn seiliedig ar ddeng





Ar Stena Europe

mlynedd o waith arolygu mis wrth fis ar Stena Europe. Dyma fydd yr arolwg hiraf a mwyaf cynhwysfawr o anifeiliaid morfilaidd erioed yn nyfroedd Cymru ac am y tro cyntaf mae gennym gipolwg tymhorol ar eu symudiadau!

Mae ein holl gofnodion wedi'u trosi i ArcView GIS ac maent ar gael i bawb trwy Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. I weld ein gweithgareddau neu i gael rhagor o wybodaeth amdanom ni, ewch i'n gwefan, ein tudalen Facebook neu ein blog *Whales in Wales!*

Cliff Benson

Sea Trust

www.seatrust.org.uk

Ffôn: 01348874737

E-bost: seatrustwales@gmail.com



Cyfrif Wyau West Williamston – Galw am Wirfoddolwyr

Bydd y digwyddiad cyfrif wyau blynyddol i fonitro poblogaeth y glöyn byw prin, sef y brithribin brown yn West Williamston yn cael ei gynnal ddydd Sul 7 Rhagfyr 2014. Mae'r wyau'n fach iawn a chânt eu dodwy ar frigau drain duon ifanc, felly gall chwilio amdanynt fod yn eithaf anodd tan i chi ddod i arfer. Byddwn yn cyfarfod am 10.00am yn y maes parcio bach ochr draw'r pentrefan.

Dewch â chinio gyda chi os ydych am aros

ar gyfer sesiwn 'gweddill y warchodfa' yn y prynhawn. Cysylltwch â mi ag unrhyw ymholiad.

Nikki Anderson

01646 686469

Adar Drycin Manaw yn Drysu

Diwedd mis Awst a dechrau mis Medi yw'r amser pan mae adar drycin Manaw weithiau'n drysu ac yn glanio ar y tir ar arwynebeddau maent yn eu camgymryd am ddŵr (megis ffyrdd). Ar ôl iddynt lanio, gallant gael trafferth dechrau hedfan eto heb gymorth. Mae'n broblem ddifrifol iawn i'r adar ifanc os yw'n digwydd ar yr un pryd â cheir gwyntoedd cryfion o'r de-orllewin ac nad oes modd gweld yn glir.

Os ydych yn digwydd gweld un mewn trafferth, rhowch yr aderyn mewn bocs cardfwrdd a chreu tyllau gwynt a chysylltwch â'r bobl ganlynol i drefnu iddynt ei gasglu:

Jean Haines 01646 651236

Nigel Rossiter 07974 387715

Neu, gallwch fynd â'r aderyn i'ch milfeddygfa agosaf.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Aderyn Drycin Manaw

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 4



Digwyddiad Gweld Bywyd Gwylt Sir Benfro 2014 – Mae'r gystadleuaeth ffotograffiaeth AR AGOR

Ar 12 Tachwedd 2014 bydd Fforwm Arfordirol Sir Benfro (PCF) yn cynnal y digwyddiad poblogaidd iawn sef 'Digwyddiad Gweld Bywyd Gwylt Sir Benfro' yn Theatr Merlin, Hwlfordd. Mae'r digwyddiad yn ysbrydoli naturiaethwyr a ffotograffwyr lleol i rannu straeon a lluniau sy'n dathlu bywyd gwylt amrywiol ac arbennig Sir Benfro ar y tir ac o dan y dŵr.

Mae'r digwyddiad yn cefnogi gwaith Siarter Awyr Agored Sir Benfro a grwpiau Cod Morol a'u nod yw codi ymwybyddiaeth am yr hyn y gall y cyhoedd ei wneud i sicrhau y caiff y bywyd gwylt ei werthfawrogi a'i amddiffyn i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r grwpiau wedi datblygu codau ymddygiad ac arfer gorau ar gyfer gweithgareddau anturus ac maent yn trefnu digwyddiadau hyfforddi amgylcheddol yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth am fflora, ffawna a threftadaeth naturiol Sir Benfro.

Bydd chwe siaradwr lleol yn rhannu straeon a lluniau o'r hyn y maent wedi'i weld o fywyd gwylt Sir Benfro. Eleni, bydd **Francis Bunker** yn rhoi cipolwg ar fywyd dirgel gwymon. Bydd **Tony Barber**, gweithredwr cychod lleol a llysgennad y Cod Morol yn rhoi gwybod i ni am yr hyn a welwyd yn ddiweddar o ran anifeiliaid morfilaidd. Bydd **Tim Healing** yn rhannu'i gyfoeth o wybodaeth am lygodyn bengron Sgomer. Bydd **Trevor Theobald** ac **Ant Rogers** yn gwneud cyflwyniad am Bryfaid Peillio a Blodau Gwylt Sir Benfro. I gloi'r noson, bydd **Lou Luddington** yn siarad am ein hanemoneau tanddwr rhyfeddol.

Rhan bwysig o'r digwyddiad yw'r gystadleuaeth ffotograffiaeth bywyd gwylt, a bydd y ffotograffau buddugol yn cael eu dewis gan banel o feirniaid lleol. Yn newydd ar gyfer 2014 mae'r adran blant i ffotograffwyr brwd o



Enillydd y Llynedd
Llun: Matt MacKenzie

dan 16 oed. Bydd gwobrau i'r cyntaf, yr ail a'r trydydd ac mae'r gystadleuaeth ar agor i bawb. Y cwbl y mae angen i chi ei wneud yw anfon dim mwy na thri ffotograff o Fwyd Gwylt Sir Benfro rydych wedi'i weld er 1 Ionawr 2014 (dim mwy na 1MB ar gyfer pob llun) i Jodie.mcgregor@pembrokeshirecoastalforum.org.uk Mae'r telerau ac amodau llawn ar gael ar wefan Fforwm Arfordirol Sir Benfro. Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau yw canol dydd, **3 Tachwedd 2014**. Cyhoeddir yr enillwyr ar noson y digwyddiad.

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, y telerau ac amodau ar gyfer y gystadleuaeth ffotograffiaeth a'r dyddiadau ar gyfer archebu eich lle, ewch i:
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Cyffrous iawn yw cael trefnu'r digwyddiad hwn unwaith eto, a mae'r tocynnau bob tro'n gwerthu allan. Mae'n noson llawn hwyl gyda chyfoeth o bobl wybodus a brwdfrydig mewn un ystafell!

Jodie McGregor

Fforwm Arfordirol Sir Benfro



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Medi – Hydref



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
10 ac 11 Medi 2014	Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Cynhadledd Bioamrywiaeth Flynyddol. Caiff ei chynnal eleni yng Nghaerdydd. Manylion yma: http://www.biodiversitywales.org.uk/97/en-GB/Wales-Biodiversity-Partnership-Conference	Archebu lle trwy'r wefan
20 Medi 2014	Cyflwyniad i Wenyn Rhan 1: Cilgerran	Cwrs undydd i'r rheini a chanddynt ddiddordeb mewn gwenyn a dysgu rhagor am wenyn yn gyffredinol yng Nghanolfan Natur Cymru, Cilgerran. Cost £40.	01239 621600
21 Medi 2014	Cyflwyniad i Wenyn Rhan 2: Cilgerran	Cwrs undydd i'r rheini a chanddynt ddiddordeb mewn gwenyn a dysgu rhagor am wenyn yn gyffredinol yng Nghanolfan Natur Cymru, Cilgerran. Cost £40.	01239 621600
19 Hydref 2014	Adnabod Adar sy'n Mudo yn yr Hydref: Cilgerran	Bydd Bob ac Annie Haycock yn rhoi cyflwyniad i adar yr hydref sy'n gysylltiedig â gwarchodfa Morfa Afon Teifi. Bydd y cwrs yn trafod ecoleg gyffredinol; cylch blynyddol y rhywogaethau hyn; sut i arsylwi arnynt a sut i'w cofnodi. Bydd hefyd yn cynnwys gwyllo a gofalu am adar gerddi a sut y gallwch gyfrannu cofnodion at arolygon megis y cynllun Garden Bird-watch a BirdTrack. Cost £25.	01239 621600
28 Hydref 2014 15:30 – 17:00	Ystlumod Anhygoel: Caeriw	Taith gerdded addas i'r teulu i chwilio am ystlumod a gwrando ar eu galwadau ar synwryddion arbennig a dysgu am eu ffordd o fyw anarferol. Darperir yr holl offer. Mae mynd i wyllo'r ystlumod yn cynnwys rhywfaint o gerdded. Cynghorir y mynychwyr i wisgo'n addas ac i ddod â thortsh. MAE ARCHEBU EICH LLE YN HANFODOL	01834 845040
29 Hydref 2014 13:00 – 15:30	Anturiaethau Coetiroedd Gwyllt: Gardd Goetir Colby	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ein gweithgareddau i'r teulu. £3 y pen. Dewch i ganfod gardd goetir hyfryd mewn cwm cudd.	01834 811885
29 Hydref 2014 15:30 – 17:00	Min nos yn Colby: Gardd Goetir Colby	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir wrth iddi droi'n dywyll ar y daith gerdded milltir o hyd sy'n addas i deuluoedd. £3.50 i oedolion a £2.50 i blant (gan gynnwys diod boeth a bisgedi).	01834 811885

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Hydref – Rhagfyr



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
30 Hydref 2014 13:00 – 15:30	Anturiaethau Coetiroedd Gwyllt: Gardd Goetir Colby	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ein gweithgareddau i'r teulu. £3 y pen. Dewch i ganfod gardd goetir hyfryd mewn cwm cudd	01834 811885
30 Hydref 2014 15:30 – 17:00	Min nos yn Colby Gardd Goetir Colby	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir wrth iddi droi'n dywyll ar y daith gerdded milltir o hyd sy'n addas i deuluoedd. £3.50 i oedolion a £2.50 i blant (gan gynnwys diod boeth a bisgedi).	01834 811885
7 Rhagfyr 2014	Cyfrif Wyau West Williamston	Byddwn yn cyfarfod yn y Warchodfa Natur yn West Williamston am 10:00 i helpu â'r arolwg blynyddol i chwilio am wyau'r glöyn byw prin, sef y brithribin brown.	Nikki Anderson 01646 686469



Ymweld â ni ar Facebook:

**[https://www.facebook.com/
PembrokeshireBiodiversity](https://www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity)**



Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

Manylion Cysylltu PBSB

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan
www.pembrokeshire.gov.uk
(chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan
www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tiffeddianwyr 	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro 
Undeb Amaethwyr Cymru 	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt 	Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu 
Cadwch Gymru'n Daclys 	Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru 
 MANOR HOUSE Wildlife Park	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar 
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru 	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 
Cyfoeth Naturiol Cymru 	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru 
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro 	 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro 	Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru 

